

RHEOLAU CYFFREDINOL YR EISTEDDFOD

1. Bydd hawl gan bob Clwb gystadlu mewn uchafswm o 12 cystadleuaeth llwyfan. Mae cystadleuaeth Unawd 13 oed neu iau, Llefaru 13 oed neu iau a chystadleuaeth Canu Emyr Nofis ar y dydd Sadwrn yn ychwanegol gan eu bod yn gyfyngedig i'r Sir yn unig. Gall pob Clwb gystadlu yn yr adran gwaith cartref.
2. Dau gystadleuydd o bob Clwb ym mhob cystadleuaeth, ac un parti ym mhob cystadleuaeth partion. (Deuawd yn cyfri fel Parti).
3. Parti Unsain/Cerdd Dant a Llefaru – Dim mwy nag 16 aelod 28 oed neu iau.
4. Côt – Caniateir 10 aelod dros 28 oed i gynorthwyo'r Côt ac hefyd un arweinydd a c(h)yfeilydd ychwanegol.
Hawl cael 2 glwb i ymuno i greu côr ond ni fyddant yn derbyn pwyntiau am hyn, mi fydd hon wedyn yn gystadleuaeth ychwanegol i'r clybiau hynny sydd yn ymuno.
5. Gall clybiau ddod â c(h)yfeilydd eu hunain os y dymunant.
6. Os na fydd cystadleuydd yn bresennol pan elwir ei enw, ni chaniateir iddo/iddi gystadlu.
7. Bydd y Beirniaid a'r Trefnydd Sir yn dewis y 15 cystadleuaeth orau allan o'r cystadlaethau llwyfan i fynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru.
8. Bydd y Gadair yn yr Eisteddfod eleni yn cael ei chyflwyno i'r gerdd orau â choron yn cael ei chyflwyno i'r rhyddiaith orau. Bydd enillwyr y cystadlaethau Gwaith Cartref yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru.
9. Marciau fel a ganlyn:

Unigolion	1af – 4	2il – 3	3ydd – 2	Rhoddir 1 marc am gystadlu
Timau	1af – 7	2il – 5	3ydd – 3	Rhoddir 1 marc am gystadlu
Corau	1af – 10	2il – 8	3ydd – 6	Rhoddir 2 marc am gystadlu
10. Rhaid i bob cystadleuydd wneud yn siwr fod copi o'u darn canu/llefaru yn llaw'r beirniad cyn y gystadleuaeth.
11. Cosbiadau Amser – yn gymwys i bob cystadleuaeth sydd a chyfyngiadau amser. Tynnir 1 pwynt i ffwrdd am bob 15 eiliad neu ran o'r amser hwnnw sydd dros yr amser penodedig. Nodir os gwelwch yn dda bod cyfyngiadau amser yn cynnwys gosod a chlirio'r llwyfan ac ni fydd modd rhewi ac aildechrau'r amser unwaith i'r amseru ddechrau er mwyn gosod a chlirio.
12. Gwnewch bob ymdrech i sicrhau fod pob un sydd a'i enw ar y ffurflen gais yn cystadlu ar ddiwrnod yr Eisteddfod.
13. Nid oes hawl gan yr un aelod i gystadlu ddwywaith yn yr un gystadleuaeth, ond ar wahan i hynny nid oes cyfyngder ar y nifer o gystadlaethau y gall aelod gystadlu ynddynt.
14. Ni chaniateir perfformio yr un darn mewn dwy gystadleuaeth.
15. Ni chaniateir llungopïo darnau oherwydd hawlfraint.
16. Pwysig! Os ydych am i'r cyfeilyddion swyddogol chwarae i chi yn yr Eisteddfod, mae'n **RHAID** i ni dderbyn copi o'r cyfeiliant yn y Swyddfa erbyn Dydd Mercher 13eg o Hydref man pellaf.
17. Dim ond mewn un categori oedran y gall aelod gystadlu yn unigol.
18. Caniateir 2 bennill yn unig yn y cystadlaethau Canu Emyr a'r Canu Emyr Nofis.